# Cyngor Rhondda Cynon Taf

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

# 2017–2018

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.
I wneud cais, ffoniwch 01443 444529 neu anfonwch ebost i
cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Pwy ydyn ni | 4 |
| 3. Adrodd Cydraddoldeb | 4 |
| 4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | 5 |
| 5. Sut rydyn ni’n cyflawnir Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | 6 |
| 6. Amcanion Cydraddoldeb | 29 |
| 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 34 |
| 8. Data Monitro Cyflogaeth | 35 |
| 9. Caffael | 36 |
| 10. Gwybodaeth Hygyrch | 37 |
| 11. Gwaith y Dyfodol | 37 |
| 12. Manylion Cyswllt | 38 |


**ATODIADAU**


Atodiad 1 Data Monitro Cyflogaeth

## 1. Cyflwyniad

Mae'n bleser i mi gyflwyno'r adroddiad cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru, gadw adroddiad blynyddol ynglŷn â sut mae e wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys yr wybodaeth sydd angen er mwyn i'r Cyngor fodloni'r dyletswyddau yma.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, yn ei gwneud hi'n haws i'r grwpiau sydd â diddordeb, weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o’r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae’r adran olaf yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gwaith y mae angen i’r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Unwaith eto, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi parhau i wneud ein Bwrdeistref Sirol yn lle mwy cyfartal i fyw, gweithio a defnyddio gwasanaethau ynddi. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod meysydd i'w gwella, a bydd meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yma nid yn unig yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, ond fe fydd hefyd yn eich helpu chi, a chithau'n drigolion y sir, i nodi'r meysydd yma ac i fonitro'u cynnydd.

**Y Cynghorydd Maureen Webber**
**Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

## 2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr ac mae ganddo boblogaeth o dros 234,000 o bobl. Cyngor Rhondda Cynon Taf yw cyflogwr pennaf yr ardal leol a'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru ac mae'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yn yr ardal leol. Mae dros 80% o'i weithwyr hefyd yn byw o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn yn cael eu mynegi yn narpariaeth ein gwasanaethau ac ein harferion cyflogaeth.

Dyma flaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol:

- **Economi** – adeiladu economi gref
- **Pobl** – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb
- **Lle** – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Mae'r cynllun yn rhoi'r trigolion wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gan y Cyngor Garfan Rheolwyr Corfforaethol sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae dros 10,000 o weithwyr wedi'u cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadrannau canlynol:

- Prif Weithredwr
- Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

## 3. Adrodd am Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu trin dan ddyletswyddau penodol Cymru, yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 20147 hyd at 31 Mawrth 2018.

**Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:**

Rhaid bod adroddiad 2017/18 yn nodi:

- Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth gwrdd â 3 nod y ddyletswydd gyffredinol
- Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.
- Cynnydd o ran cyflawni pob un o'i hamcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.

## 4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau’r sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy’n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o’r nodweddion gwarchodedig i'w gweld isod).
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

**Nodweddion Gwarchodedig**

Dyma’r term sy’n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi’r gwahanol bethau sy’n gallu effeithio ar sut y caiff pobl eu trin, a gall olygu y bydd pobl yn dioddef gwahaniaethu.  Diben y gyfraith yw diogelu’r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd

- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Tuedd Rywiol

Mae hefyd angen rhoi sylw dyledus ar gael gwared ar wahaniaethu mewn perthynas â phriodasau a phartneriaethau sifil.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a rhai sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i’r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ag anfanteision, neu'u lleihau, sy’n wynebu pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy’n gysylltiedig â’r nodwedd honno
- Diwallu anghenion pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy’n wahanol i anghenion y bobl hynny dydyn nhw ddim yn eu rhannu
- Annog pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl o’r fath sy’n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i’r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd e’n mynd i’r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

## 5. Sut rydyn ni’n cyflawnir Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynhonellau lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, fforymau cymunedol neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynhonellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

### Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Wrth ystyried pa wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys yn yr adroddiad, edrychodd y Cyngor ar yr wybodaeth a gafodd ei hystyried yn ystod cyfnod datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Galluogodd hyn i'r Cyngor fyfyrio a monitro p'un ai fod y wybodaeth dal yn briodol wrth ei gynorthwyo i ddarparu Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar ddeilliannau monitro chwarterol a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor:

http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/EqualityandDiversity/StrategicEqualityPlan.aspx

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau. Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisiau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth yr wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd arolwg i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recruitment) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Noder bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

**Defnydd o Wybodaeth**

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd meysydd i'w gwella a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn adran 'gwaith pellach' yr adroddiad hwn.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2016–2020)
- Gwerthusiad Hunanwasanaeth o'r Meysydd Gwasanaeth (2017/2018)

- Darpariaeth Gwasanaethau/Prosiectau (2017/2018)
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- AEGau (2017/2018)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2017/2018)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2017/2018).

**Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth**

Mae engreifftiau o arfer da i'w gweld mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a gynorthwyodd y Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys 'cipolwg' o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad at y **Cyfamod Cymunedol. Mae'r Cyfamod Cymunedol yn ddatganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil Rhondda Cynon Taf a'r Gymuned Lluoedd Arfog lleol. Mae'r addewid yn cydnabod y parch deuol rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a'n Personél Lluoedd Arfog (gwasanaethu ac ymddeol) a'u teuluoedd.**

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:
http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/ArmedForcesCovenant/Communitycovenantgeneralinformation.aspx

Mae'r Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog, a gafodd ei benodi ym mis Tachwedd 2017, wedi datblygu perthnasau ag elusennau'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â grwpiau i gyn-filwyr yn y gymuned.

Mae Swyddog Addysg LlEM wedi bod yn ei swydd ers mis Awst 2015. Mae'r swydd yma wedi bod yn hanfodol o ran nodi plant y lluoedd arfog sy'n derbyn addysg yn y fwrdeistref, ac mae hyn wedi galluogi'r Swyddog i gynnig gwybodaeth a chymorth i'r teuluoedd yma.

Mae **Gwasanaeth y Celfyddydau** wedi paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei hun sy'n amlinellu'i ymrwymiad i ddarparu gweithgareddau cynhwysol a phenodol o fewn y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, yn enwedig yn y theatrau.

Maen nhw'n parhau i fod yn aelod o'r Cynllun Hynt, ac mae'r wybodaeth yn cael ei harddangos ar y wefan ac yn llyfryn y theatrau.   Mae'r cynllun cenedlaethol yma'n galluogi'r rheiny sy'n gymwys i gael gafael ar docynnau am ddim ar gyfer eu cynhalwyr er mwyn eu helpu i ddod i achlysuron byw neu i fynd i'r sinema.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn parhau i gynorthwyo'r gwasanaeth o ran hygyrchedd yn y theatrau a gwneud addasiadau rhesymol sy'n gwella mynediad ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Drwy ddatblygu ardal berfformio fach ym Mar y Lolfa, Theatr y Parc a'r Dâr, bydd hyn yn cynnig lle hygyrch ar gyfer y gynulleidfa a'r perfformwyr. Yn unol â Chynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, bydd hefyd modd i ni gynyddu nifer y cyfleoedd ar gyfer artistiaid a thrigolion sydd ag anableddau.

Cafodd arddangosiad ffilm LHDT+ ei gynnig yn gynharach eleni yn Theatr y Parc a'r Dâr, gyda chymorth gan Rwydwaith LHDT+ y Cyngor. Cafodd y ddwy theatr eu goleuo er mwyn dathlu 'Pride'.

*Caiff rhaglenni Daytime Delights* eu cynnig yn y theatrau ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys *Concerts and Cakes* amser cinio (mewn partneriaeth â Live Music Now), arddangosiadau sinema, a pherfformiadau byw gyda'r prynhawn.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig arddangosiadau a pherfformiadau hamddenol ar gyfer teuluoedd yn y naill theatr, gan gynnwys Clwb i Blant misol yn Theatr y Colisëwm.  Mae eu hartistiaid preswyl 'Flossy and Boo' yn cynorthwyo'r theatr er mwyn datblygu cynulleidfaoedd sy'n deuluoedd drwy gyd-gynhyrchu gwaith sy'n addas ar gyfer y grŵp targed yma.

Mae swyddogion yn parhau i gynnig hyfforddiant a chymorth mentora, ac yn eu darparu ar gyfer pobl sy'n rhan o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn ein theatrau a charfan y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Mae'r gwasanaeth yn creu astudiaethau achos er mwyn dangos yr effaith gymdeithasol sydd gan y celfyddydau yn unol â 7 Amcan Lles Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n cynorthwyo ni i werthuso'n darpariaeth a chasglu adborth gan bartneriaid a'r sawl sy'n cymryd rhan.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Garfan Ymgynghori er mwyn deall ein cymunedau'n well er mwyn pennu perthnasedd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig,

yn enwedig rhaglenni'r theatrau ynghyd â dulliau sy'n annog trigolion i fod yn fwy gweithredol creadigol.

Mae'r rhaglenni hyfforddiant **'GofaliWaith' a 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir'** yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydyn ni wedi gweld canlyniadau llwyddiannus iawn yn 2017/18, gan gynnwys:

***GofaliWaith***

- 104 o bobl ifainc yn cael eu cyfeirio at y Rhaglen GofaliWaith
- 85 o bobl ifainc wedi cofrestru ar gyfer y Rhaglen GofaliWaith, ac ymgysylltu â hi
- 15 o bobl ifainc wedi ennill swydd
- 65 o bobl ifainc wedi ymgymryd ag addysg bellach a/neu hyfforddiant
- 5 o bobl ifainc wedi ymgymryd â gwaith gwirfoddol

***Camu i'r Cyfeiriad Cywir***

- 18 o unigolion dan hyfforddiant wedi'u penodi
- 3 o unigolion dan hyfforddiant wedi ennill swydd
- 6 o unigolion dan hyfforddiant wedi cyflawni cymhwyster
- 3 o unigolion dan hyfforddiant yn gweithio tuag at gymhwyster ar hyn o bryd
- 4 o unigolion dan hyfforddiant wedi gadael y cynllun cyn diwedd y contract ddwy flynedd.

**Cafodd Amcanion Cydlyniant Cymunedol** eu pennu ar gyfer 2014. Mae'r rhain yn gyfuniad o nodweddion cyffredin ar draws cynlluniau gweithredu cyfredol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r amcanion wedi'u nodi isod:

***Amcan 1*** – Adeiladu rhwydwaith gadarn o weithgorau i reoli a darparu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf.

Cafodd nifer o grwpiau strategol eu sefydlu er mwyn mynd i'r afael â materion cydlyniant yng Nghwm Taf. Mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp Cydlynu Cymuned Cwm Taf. Mae'r grŵp yma'n cwrdd bob chwarter er mwyn datblygu dulliau newydd o integreiddio cydlyniant yn y gymuned i fod rhan o ddarpariaeth gwasanaethau'r prif ffrwd ac i nodi grwpiau lleol sydd â lefelau cynhwysiant neu gydlyniant isel, a chynorthwyo'r grwpiau yma.

***Amcan 2*** – Cydlyniant Cymunedol Prif Ffrwd drwy gysylltu â strategaethau allweddol lleol ar draws Cwm Taf, a bod yn rhan ohonyn nhw.

Mae gwaith eisoes wedi mynd rhagddo er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i ymgorffori blaenoriaethau cydlyniant cymunedau lleol a rhanbarthol yn rhan o strategaethau

lleol allweddol. Erbyn hyn mae pwyslais uwch gan Gynllun Lles Cwm Taf ar ymgysylltu â phobl/grwpiau yn y gymuned a oedd ddim wedi ymgysylltu â gwasanaethau'r Cyngor yn y gorffennol, ac a gafodd eu nodi oherwydd perygl o lefelau cynhwysiant a chydlyniant isel; roedd hyn yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig penodol. Y flaenoriaeth o ran cydlyniant yw bod gan drigolion bwyslais cadarn ar berthyn a theimlo'n rhan o'r gymuned, ac mae hyn yn rhan o amcanion Cynllun Lles Cwm Taf.

***Amcan 3*** – Rhoi gwybodaeth ynghylch pynciau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol ar draws Cwm Taf.

Cafodd diwrnodau ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft Diwrnod Coffau'r Holocost, eu defnyddio er mwyn hyrwyddo materion cydlyniant yn y gymuned i drigolion y fwrdeistref. Yn ystod yr achlysuron yma, cafodd gweithdai eu darparu i blant yn yr ysgolion lleol yn trafod pynciau fel ystrydebu negyddol.

Mae gwaith strategol a lleol hefyd yn parhau er mwyn torri unrhyw rwystrau at gynhwysiant ac integreiddio ar gyfer grwpiau penodol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Darparu Cydlyniant yn y Gymuned. Caiff hyn ei weithredu drwy weithio'n agos â meysydd gwasanaeth, er enghraifft yr Asesiad Llety i Bobl sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr, drwy sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu. Yn ogystal â hyn, caiff ei weithredu drwy gydweithio â chydweithwyr ar y Cynllun Ailsefydlu Ffoaduriaid Syria er mwyn sicrhau bod unrhyw anghenion sy'n codi, neu unrhyw faterion cydlyniant, yn cael eu diwallu.

***Amcan 4*** – Gwella cyfleoedd i adrodd am densiynau yn y gymuned, sy'n cynnwys profiadau o drosedd casineb a pha mor ymatebol ydy unigolion a grwpiau i radicaliaeth.

Mae gwaith yn parhau i gynyddu cyfleoedd o roi gwybod am densiynau yn y gymuned drwy gyfarfodydd strategol fel Panel 'Channel' Cwm Taf a Bwrdd 'Contest' Cwm Taf.

Mae ein **Gwasanaethau Cyfathrebu a'n Gwasanaethau Llywodraethol** yn cydweithio â'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb ym mhob agwedd o'i gwaith sy'n helpu i lywio penderfyniadau yn ogystal â dylanwadu ar staff ac Aelodau o'r Cabinet. Mae nifer o aelodau o'r garfan yn rhan weithredol o rwydweithiau cydraddoldeb staff y Cyngor.

Caiff trigolion a rhanddeiliaid gyfle i roi eu barn mewn sawl iaith a diwyg. Yn ystod ymgynghoriadau, mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ymgysylltu â'r ystod ehangaf posibl o bobl, gan gasglu barn pob grŵp sy'n byw yn y fwrdeistref, gyda'r nod o gynrychioli pob barn a phob pryder. Mae'r garfan yn mynychu fforymau ar gyfer pobl ag anableddau, yn ogystal â fforymau ar gyfer grwpiau lleiafrifol er mwyn cofnodi'u

barn. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y gallai fod materion penodol yn effeithio ar y grwpiau yma. Mae cwestiwn ymgynghori ychwanegol wedi'i ychwanegu at ymgynghoriadau ynghylch newidiadau i wasanaethau sy'n galluogi'r Cyngor i asesu effaith unrhyw newid ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod.

Mae'r Garfan Ddigidol a Chyfathrebu yn weithredol o ran hyrwyddo a diogelu hawliau'r bobl mewn grwpiau lleiafrifol. Dros y flwyddyn, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi sawl achos a hyrwyddo hawliau'r holl nodweddion gwarchodedig - mae hyn wedi bod ar sail mewnol ac allanol, ac wedi'u hymgorffori mewn achlysuron, cyfryngau cymdeithasol, y wasg, areithiau ac mewn fideo.

Mae adran y Gwasanaethau Llywodraethol wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru er mwyn cynyddu amrywiaeth cyn etholiadau lleol 2022. Mae Carfan y Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yn darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynghylch busnes y Cyngor er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol.

Mae'r Garfan Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus yn helpu i gynorthwyo asesiadau effaith ar gydraddoldeb y Cyngor, a helpu'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb drwy ddarparu tystiolaeth a hyrwyddo gwasanaethau.

Cafodd ein **Gwasanaeth Llesiany a Chydnerthedd y Gymuned** ei greu yn 2018, ac mae wedi'i gyfansoddi o sawl carfan benodol sy'n cynnig cymorth i deuluoedd a phobl ifainc.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) yn hwyluso Fforwm Ieuenctid y Fwrdeistref ynghyd â fforymau ieuenctid lleol ledled RhCT. Mae 70 sedd yn Fforwm Ieuenctid y Sir. Er mwyn sicrhau bod y fforwm yn hollol gynrychioliadol, maen nhw wedi'u pennu fel a ganlyn:

- 2 Gynrychiolydd ar gyfer y 21 cyngor ysgol yn RhCT (17 ysgol prif ffrwd a 4 ysgol arbennig)
- 7 Cynrychiolydd o'r Fforymau Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Lleol (Fforymau Ieuenctid Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái)
- 2 Sedd ar gyfer Aelodau RhCT o Senedd Ieuenctid Prydain sy'n cael eu hethol gan y Fforwm Ieuenctid Sirol
- 5 sedd ar gyfer grwpiau diddordeb arbennig (Fforymau Plant sy'n Derbyn Gofal, y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Fforwm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a'r Fforwm Cynhalwyr Ifainc ac ati).

Roedd y grwpiau diddordeb arbennig a'r fforymau cymdogaeth ieuenctid yn hanfodol o ran datblygiad y Fforwm Ieuenctid Sirol ac o ran sicrhau bod pobl ifainc sy'n wynebu rhwystrau at gyfranogiad yn derbyn cymorth, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

***Fforwm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)***

Cafodd yr achlysur cyntaf ar gyfer pobl ifainc y gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ei drefnu mewn ymateb i'r wybodaeth a oedd ar gael yn ystod sesiynau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad yng nghlybiau ieuenctid y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, gyda chymorth gan yr ymgyrch 'Show Racism the Red Card'. Daeth dros 100 o bobl ifainc o ledled RhCT i'r Achlysur BAME. O ganlyniad i'r achlysur, roedd yn amlwg bod angen rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion y mae pobl ifainc BAME yn eu hwynebu. Felly, daeth y penderfyniad i ddatblygu Fforwm BAME cyntaf RhCT er mwyn edrych ar y materion yma. O ganlyniad i anawsterau cludiant ar gyfer y bobl ifainc, roedd y grŵp wedi penderfynu bod y fforwm yn mynd i fod yn un sy'n gweithredu ar-lein yn bennaf, y cyntaf o'i fath i ni. Mae grŵp ar gyfer y fforwm wedi'i sefydlu, gyda chymorth gan y Swyddog Hawliau'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid. Drwy'r fforwm yma, bydd pobl ifainc yn dechrau prosiectau a gwaith yr hoffen nhw eu gwneud er mwyn diwallu'u blaenoriaethau. Bydd grwpiau lleol yn cwrdd i fod yn fforymau llai er mwyn cyflawni prosiectau gwahanol. Bydd y grŵp yn cwrdd mewn person fel rhan o'r Fforwm Ieuenctid Sirol, a hefyd pob blwyddyn er mwyn trafod eu prosiectau a'u blaenoriaethau lleol.

***Cynhalwyr Ifainc***

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda grŵp Cynhalwyr Ifainc RhCT hefyd er mwyn sicrhau bod y bobl ifainc yn derbyn cymorth er mwyn cael gwared ar y rhwystrau ymarferol a allai fod yn eu hatal rhag manteisio ar y gwasanaethau ieuenctid, a'u galluogi nhw i fynychu darpariaeth ieuenctid agored y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid. Yn 2017/2018, darparodd y Prosiect Cynhalwyr Ifainc 30 sesiwn a oedd wedi galluogi 45 o bobl ifainc â chyfrifoldebau gofal i fanteisio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

***Prosiect 'Becoming Independent'***

Dechreuodd y Prosiect 'Becoming Independent' yn 2017 fel prosiect prawf yn Ysgol Hen Felin yn rhan o'r cymorth ôl 16 yn cael ei gynnig gan Swyddog Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid yng Nghwm Rhondda. Drwy ymgynghori â'r grŵp o bobl ifainc, roedd yn glir bod yna bryderon ynghylch bod yn oedolyn yn brif fater iddyn nhw. Felly, daeth y penderfyniad i ddarparu Prosiect 'Becoming Independent' a oedd yn canolbwyntio ar faterion a oedd wedi'u codi ymhlith y grŵp. Roedd ystod o gymorth ar gael drwy'r rhaglen, gan gynnwys; perthnasau iach, ymddygiad priodol, rheoli emosiynau, diogelwch ar y rhyngrwyd a hyfforddiant ar deithio. Roedd y prosiect yn lwyddiant ymhlith y bobl ifainc, a phob un wedi tyfu o ran hyder ac annibyniaeth. Roedd Ysgol Hen Felin yn gwbl gefnogol, ac roedden nhw mor falch o chanlyniadau'r prosiect. O ganlyniad i hynny roedden nhw wedi gofyn bod rhaglen arall yn cael ei chynnal ar gyfer grŵp newydd o bobl ifainc 16 oed a hŷn. Felly,

cafodd rhaglen 10 wythnos ei datblygu, ac mae modd ei haddasu ar gyfer pob grŵp unigol.

***Tlodi Misglwyf***

Yn gynharach eleni, cefnogodd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid 784 o feched yn RhCT i gwblhau holiadur ar-lein ynghylch argaeledd nwyddau glanweithiol mewn ysgolion, a sut mae cyfnod y misglwyf yn effeithio arnyn nhw. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar-lein, derbyniodd 12 o ferched wahoddiad i fynychu'r Gweithgor Craffu Plant a Phobl Ifainc i rannu eu barn ar y ddarpariaeth o nwyddau glanweithiol yn eu hysgolion. O ganlyniad i hyn, mae'r Cabinet wedi cytuno i ddarparu nwyddau glanweithiol am ddim yn nhoiledau pob ysgol uwchradd yn RhCT. Rhondda Cynon Taf yw'r Cyngor cyntaf yng Nghymru i wneud y penderfyniad yma.

***Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thraws+ (LHDT+)***

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid. Mae modd i'r Swyddog gynnig cymorth a chyngor arbenigol i bobl ifainc sy'n LHDT+. Mae'r cymorth arbenigol yma'n cynnwys gweithio gyda phobl ifainc sy'n mynd drwy'r broses o drawsnewid, a'u teuluoedd a'r ysgolion er mwyn sicrhau bod cynlluniau unigryw a chadarn yn eu lle er mwyn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol drwy gydol y broses. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth LHDT+. Felly, mae'r gwasanaeth wedi sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar faterion LHDT+.

***Is-grŵp Gwrth-fwlio***

Cyflwynodd yr adran Addysg bolisi gwrth fwilio newydd ei ddiweddaru, ac mae wedi ymgynghori â pobl ifainc ar ei gynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben. Nod y polisi yw gwella sut y mae achosion o fwlio'n cael eu cofnodi er mwyn llywio ymyriadau a dulliau gwell ar gyfer gwrth-fwlio. Diwygiodd y bobl ifainc y polisi, ac ychwanegi delweddau iddo er mwyn ei wneud yn fwy addas i bobl ifainc.

***Is-grŵp Iechyd Meddwl***

Roedd y bobl ifainc eisiau mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, a chodi ymwybyddiaeh o'r cymorth sydd ar gael i bobl ifainc sy'n profi materion iechyd meddwl. Roedd aelodau'r grŵp wedi canolbwyntio ar wella'u sgiliau a chael hyfforddiant. Cwblhaodd y bobl ifainc Hyfforddiant Cymorth Cyntaf - Iechyd Meddwl, ynghyd â hyfforddiant siarad yn gyhoeddus i'w paratoi ar gyfer codi'r materion yma ymhlith eu cyfoedion. Cam nesaf eu gwaith oedd paratoi adnodd y mae modd ei ddefnyddio i gyflwyno sesiynau am y materion yma mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid ledled RhCT. Felly, mae'r bobl ifainc wedi gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddatblygu DVD. Mae'r DVD yn codi ymwybyddiaeth o'r brwydrau y mae pobl ifainc yn eu hwynebu, ynghyd â nodi sut y mae modd iddyn nhw gael cymorth. Mae yna becyn adnoddau sy'n cynnwys cynlluniau gwersi sy'n

mynd llaw yn llaw â'r DVD, sy'n addas ar gyfer y grwpiau oedran sy'n eu defnyddio. Felly, mae modd addasu'r adnodd er mwyn diwallu angenion y grwpiau unigol.  Y nod yw y bydd y DVD a'r pecyn adnoddau'n cael eu lansio yn hydref 2018.

***Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth - Gwasanaeth i Blant ag Anghenion Ychwanegol***

Yn ystod y cyfnod o werthuso gwaith y Gwasanaethau i Blant a'r Prosiect Pobl Agored i Niwed, cafodd ei nodi fod y teuluoedd hynny sydd â phlentyn ag anabledd neu anghenion cymorth ychwanegol yn llawer mwy agored i niwed, ac yn wynebu sawl rhwystr at ymgysylltu. Wrth sefydlu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, cafodd y Garfan Plant ag Anghenion Ychwanegol ei chynnwys yn y strwythur er mwyn sicrhau bod y teuluoedd yma'n gallu manteisio'n llawn ar y ymyriadau cymorth i deuluoedd i wella'u lefelau gwydnwch. Mae'r garfan yn canolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd lle mae angenion corfforol, dysgu neu niwroddatblygiadol y plentyn yn effeithio ar fywyd teuluol, er mwyn deall unrhyw angenion ychwanegol yn well, ac i wella perthnasau yn y teulu. Gan nad oes meini prawf trothwy yn rhwystro'r garfan Plant ag Anghenion Ychwanegol, mae modd iddi sicrhau bod y teuluoedd sydd â'r angen uchaf yn derbyn cymorth priodol. Mae'r Garfan Plant ag Anghenion Ychwanegol yn gweithredu'n wahanol i drefniadau blaenorol y Garfan o Amgylch y Teulu. Maen nhw'n gweithio gyda'r Garfan Plant ag Anableddau er mwyn sicrhau bod pecynnau cymorth integredig yn eu lle er mwyn manteisio'r teuluoedd.

***Fframwaith Rhianta Cyffredinol***

Mae Fframwaith Rhianta Cyffredinol RhCT yn darparu ymyriadau rhianta cyffredinol ledled RhCT, yn hytrach na chanolbwyntio'r cymorth ar yr ardaloedd daearyddol sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth Dechrau'n Deg, sef y drefn flaenorol. Mae'r fframwaith wedi'i ddylunio er mwyn diwallu angenion i deuluoedd ar bob cam, o Lefel 1 - sef cynnig gwybodaeth a chyfeirio'n anffurfiol, hyd at Lefel 5, sef ymyrraeth yn seiliedig ar berthynas therapiwtig. Mae'r Garfan Rhianta yn gweithio gyda sawl partner, gan gynnwys grwpiau cymorth gwirfoddol wedi'u harwain gan rieni, er mwyn darparu ystod o sesiynau ffurfiol ac anffurfiol mewn lleoliadau yn y gymuned ac mewn cartrefi'r teuluoedd.

***Pecyn Proffilio***

Dechrewyd Proffilio Grwpiau Agored i Niwed yn y fwrdeistref yn 2006 mewn ymateb i'r wybodaeth brin a oedd gan ysgolion am y ffactorau a oedd yn effeithio ar ddisgyblion o ran eu teulu â'u cymuned. Mae proffilio pobl sy'n agored i niwed wedi'i seilio ar ymchwil y 'Joseph Rowntree Foundation' ar effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol. Nod y proffilio yw darparu dull adnabod cynnar y plant a phobl ifainc sydd mewn perygl o ddatgysyllrtu o'u haddysg o ganlyniad i rwystrau economaidd-cymdeithasol y maen nhw'n eu hwynebu tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Mae proffilio pobl sy'n agored i niwed yn ein galluogi ni i symud y tu hwnt i'r dull traddodiadol o gategoreiddio plant a phobl ifainc sydd mewn perygl o ymgysylltu oherwydd maen nhw'n perthyn i grŵp penodol sy'n agored i niwed, er enghraifft cynhalwyr ifainc, Plant sy'n Derbyn Gofal, plant sydd wedi'u heffeithio oherwydd bod rhiant yn y carchar, troseddwyr ifainc ac ati. Yn lle hynny, mae'n ein galluogi ni i edrych ar sawl nodwedd er mwyn sefydlu diffiniad ehangach o'r hyn y mae bod yn agored i niwed yn ei olygu yn nhermau sicrhau canlyniadau addysgol. Trwy wneud hyn, mae modd i ni gynllunio a darparu gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar lefel yr effaith sydd gan eu sefyllfa ar eu hymgysylltiad ag addysg, yn hytrach na darparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y grŵp y maen nhw'n perthyn iddo. Mae hefyd yn ein galluogi ni i ddarparu ymateb cyson i ystod anghenion eang, lle nad yw'r mynediad yn ddibynnol ar ddatgelu ailadroddus, ac felly'n lleihau'r cyfle posib o stigma neu osod labeli ar bobl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi'i ddatblygu y tu hwnt i'r cylch gwaith 'Addysg', i nodi teuluoedd y mae angen ymyrraeth gynnar arnyn nhw er mwyn ceisio osgoi'u hanghenion rhag cynyddu i gyfnod lle mae angen ymyrraeth statudol gan y Gwasanaethau i Blant. Mae hefyd yn cael ei ddatblygu er mwyn cynhyrchu 'Proffil y Gymuned' er mwyn cefnogi ein hymrwymiad rhanbarthol i Blant yn Gyntaf drwy greu 'Parthau i'r Gymuned'. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n creu proffil pobl agored i niwed y Blynyddoedd Cynnar fel rhan o Brosiect Cyd-adeiladu'r Blynyddoedd Cynnar gyda Llywodraeth Cymru. Ein nod yw sefydlu dull cyson o ddefnyddio'r Proffilio Pobl sy'n Agored i Niwed fel adnodd adnabod er mwyn cynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau yn RhCT.

***GofaliChwarae***

Cafodd y Gwasanaeth GofaliChwarae ei sefydlu  er mwyn disodli'r Cynllun Hwyl yn ystod y Gwyliau blaenorol er mwyn ehangu argaeledd y gwasanaeth. Weithiau fydd plant a phobl ifainc ddim yn cael cyfleoedd chwarae o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol neu deuluol. Mae Gofal i Chwarae yn wasanaeth sy'n cynnig cymorth i blant a phobl ifainc 0-25 oed gael mynediad i gyfleoedd chwarae a gweithgareddau ieuenctid, a/neu gymryd rhan ynddyn nhw. Natur y Gwasanaeth yw sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at gyfleoedd sy'n briodol i'w hanghenion, a bod y rhain yn cael eu darparu fel rhan o ddarpariaeth gyffredinol prif ffrwd lle bynnag y bo modd. Mae tri math o gyfle ar gael drwy'r Gwasanaeth Gofal i Chwarae:

- Mae yna leoliadau gofal plant ar gael i blant 0-4 oed. Bydd plant yn cael eu rhoi yng ngofal darparwyr gofal oriau dydd neu warchodwyr plant.
- Mae lleoliadau sy'n darparu cyfleoedd chwarae ar gael i blant a phobl ifainc 5-14 oed. Lle bynnag y bo modd, bydd plant a phobl ifainc yn cael eu lleoli gyda darparwyr chwarae sy'n cynnig gweithgareddau chwarae rhydd fel rhan o gynlluniau chwarae yn ystod y dydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Serch hynny, er mwyn diwallu anghenion datblygiadol neu feddygol plentyn neu berson ifanc,

efallai y bydd angen ei leoli gyda darparwyr gofal oriau dydd neu warchodwyr plant lle bo angen.

- Mae gweithgareddau ar gael i bobl ifainc 11-25 oed. Mae'r elfen yma yn cael ei darparu mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor. Bydd gan bobl ifainc gyfle i gymryd rhan mewn sawl math o weithgareddau a theithiau yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â Darpariaeth Estynedig gyda'r hwyr.
- Ers mis Medi 2017, mae 221 o blant a phobl ifainc wedi cael mynediad i gyfleoedd chwarae â chymorth drwy GofaliChwarae.

***Hyblygrwydd Cyllid***

Mae ein hymagwedd tuag at Hyblygrwydd Cyllid wedi'i seilio ar fynediad cyfartal i bawb at wasanaethau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu. Bydd yr ymagwedd gynhwysol at gael un pwynt mynediad hefyd yn hwyluso'r tegwch o ran darparu gwasanaethau, yn ogystal â'r dull nodi anghenion mewn modd ymatebol a rhagymatebol. Mae ein gweledigaeth o ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion yn deg. Rydyn ni wedi ymgymryd â gwaith o ran sefydlu mynediad cyffredinol i gymorth rhianta ac ymyrraeth arbenigol gan ymwelwyr iechyd drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn drwy ddefnyddio cyllid yn hyblyg. Mae hyn yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau ymatebol a chynhwysol i'r rhai sydd eu hangen.

Caiff asesiadau effaith ar gydraddoldeb eu cwblhau ar gyfer unrhyw gynnig i newid gwasanaeth sy'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried.

Drwy ddefnyddio'r rhaglen 'Capita One', mae modd dadansoddi'r data o gysylltu ac ymgysylltu yn ôl nodweddion gwarchodedig y defnyddwyr gwasanaeth os oes angen.

Mae ein **Gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid** yn parhau i ddarparu gwasanaeth hollgynhwysol, ac mae pawb yn cael gwybod am y lleoliadau a'r amseroedd agor. Mae rhai o'n prosesau allweddol ni'n mynd ati'n uniongyrchol i hyrwyddo darpariaeth deg e.e. mae'r wefan yn helpu pobl sydd wedi colli'u golwg, mae Bathodynnau Glas yn helpu pobl sydd ag amrywiaeth o anableddau ac ati.

Mae ein Gwasanaeth Cynghori yn cynnig ystafelloedd cyngor sydd â system ddolen sain er mwyn gwella'r sain ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw. Rydyn ni'n cefnogi cyfieithu a dehongli, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, gyda chymorth gan Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru. Mae'r Ganolfan Alwadau yn mabwysiadu'r 'Canllawiau Galwadau Di-rwystr' gan y Business Disability Forum. Rydyn ni'n cynnig llinell synhwyraidd, ac yn ei hyrwyddo - "ffôn neges destun" y Ganolfan Alwadau ar gyfer pobl fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

Mae cofnodion ein gwasanaeth Llinell Fywyd yn cynnwys hanes meddygol, iaith, cred neu grefydd, ac anghenion unigol fel bod modd i ni gynnig y cymorth priodol i gwsmeriaid, ac ymateb yn briodol. Mae ein gwasanaeth Llinell Fywyd yn cefnogi 98 o gwsmeriaid sydd mewn perygl o oddef trais domestig ac sy'n flaenoriaeth gan yr Heddlu.

Cafodd ein Huned Cymorth i Fusnesau ei hail-drefnu yn ddiweddar, ac mae'n gweithio'n uniongyrchol â'r Garfan Drawsnewid yn y Learning Curve er mwyn penodi gwirfoddolwyr sydd ag anableddau ac sy'n chwilio am swydd amser llawn. Mae hyn yn eu galluogi i ennill profiad gwaith gwerthfawr er mwyn gwella'u sgiliau mewn amgylchedd gwaith.

Cafodd y **Cylch Trafod Materion Anabledd** ei sefydlu o ganlyniad i adborth o'r Gynhadledd Anabledd Estyn Allan yn 2003. Mae'r Cylch Trafod yn monitro'r broses o gyflwyno Cynllun Gweithredu y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ystod eang o ymgynghoriadau e.e. y broses pennu'r gyllideb ar gyfer y Cyngor a mentrau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn rhoi gwybod i aelodau o'r cylch am eitemau a all fod o ddiddordeb iddyn nhw. Mae hyn wedi arwain at aelodau yn cyfrannu at faterion lleol.

Ym mis Hydref 2017, cynhalion ni gynhadledd ar gyfer cynhalwyr a phobl ag anableddau er mwyn cynnig cyngor, cymorth, gweithdai a gweithgareddau i'r cyhoedd ar ystod o bynciau perthnasol.

Mae Grŵp ar gyfer Swyddogion Materion Anabledd yn parhau i gwrdd. Mae'r gweithgor yn cynnwys swyddogion sydd un ai'n darparu gwasanaethau i bobl anabl yn uniongyrchol neu'n cyfrannu at sicrhau gwasanaethau sy'n fwy hygyrch, neu fod elfen o'u swydd yn cynnwys delio â materion anabledd. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, nodi arferion gorau a hyrwyddo cyfathrebu mewnol.

Mabwysiadodd y Cyngor y **Siarter 'Dying to Work'**. Mae'r ymgyrch yma gan y TUC yn gofyn bod salwch terfynol yn cael ei ystyried yn 'nodwedd warchodedig' fel bod modd i weithwyr sydd â salwch terfynol fwynhau 'cyfnod gwarchodedig' lle nad oes modd i'w swydd ddod i ben o ganlyniad i'w salwch. Drwy fabwysiadu'r siarter yma yn ei bolisïau a'i weithdrefnau, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cefnogi ei weithwyr yn ystod y cyfnodau anoddaf.

Rydyn ni wedi datblygu gwasanaeth newydd, sef y **Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau**. Mae gan y gwasanaeth yma ddiwylliant cynhwysol, ynghyd â dealltwriaeth dda o'r rhwystrau y mae unigolion yn eu hwynebu a'r camau gweithredu sydd eu

hangen er mwyn gwneud y gwasanaethau'n fwy hygyrch a theg. Caiff arfer dda ei rhannu ym mhob maes y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau, yn fewnol a thu hwnt i'r Cyngor, er mwyn cadw cysondeb ar draws y meysydd darpariaeth gwahanol.

***Prosiectau'r Gronfa Gymdeithasol Ewrop***
Mae ein dull Cyfathrebu a Marchnata strategol yn sicrhau bod trigolion yn effro i'r holl brosiectau. Rydyn ni'n darparu prosiectau ym mhob adeilad cymunedol ledled y sir fel bod pob un yn hygyrch yn ddaearyddol. Mae staff ein prosiectau'n ymgymryd ag ymweliadau â chartrefi'r sawl sy'n cymryd rhan er mwyn cynnig cymorth i'r sawl efallai nad oes modd iddyn nhw adael eu cartrefi ar ddechrau'r prosiect. Cafodd ein prosiectau 'Ignite' a 'Platform 1' eu datblygu'n arbennig ar gyfer y sawl sydd ag anghenion ychwanegol ac anableddau.

***Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+)***
Cyn daeth y grant Cymunedau yn Gyntaf i ben, cafodd asesiad effaith ar gydraddoldeb ei gynnal a'i ddefnyddio er mwyn llywio'r dull Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer y ddwy raglen newydd wedi'u hariannu gan y grant, CaW+ a Gwaddol.

Mae'r rhaglen CAW+ bellach yn cynnwys y fwrdeistref gyfan, yn hytrach na bod yn wasanaeth sy'n benodol i gôd post, ac mae modd i'r rhaglen weithio gydag unrhywun nad oes modd iddyn nhw gael mynediad at gymorth oddi wrth unrhyw grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop arall. Felly, mae cymorth cyflogaeth ar gael i unrhyw un sy'n byw yn y fwrdeistref, o gam 1 i gam 4 o'r llwybr i gyflogaeth. Mae pob aelod o staff eisoes wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb, ac wedi cynhyrchu'r llyfryn 'PARCH' mewn partneriaeth â Charfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb y Cyngor.

Mae Swyddog Lleoli Gwaith newydd y gwasanaeth CaW+ wedi llwyddo dod o hyd i gyfle am leoliad yn Swyddfa Cyngor Cymru i Bobl Fyddar ym Mhontypridd. Caiff Cronfa Ataliol ei defnyddio er mwyn talu costau cludiant, dogfennau adnabod er mwyn i gwsmeriaid allu cadarnhau pwy ydyn nhw, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig am ddim ar yr adeg cyflwyno.

***Addysg i Oedolion***
Datblygiad newydd fu ymrwymiad darparu profiad ar gyfer cleientiaid Elite yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Ar hyn o bryd, mae 3 lle wedi'u llenwi gan unigolion sydd ag anawsterau dysgu. Mae Garth Olwg wedi derbyn gwobr yn cydnabod ei fod yn adeilad sy'n addas i bobl â dementia, ac mae pob aelod o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant dementia a gweithgareddau wedi'u hwyluso gan bobl â dementia a'u cynhalwyr.

Rydyn ni wedi sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau'r Prosiect Ymgysylltu â Dementia a'i Grymuso, ac wedi gallu cynnig cyrsiau ar gyfer pobl sydd â gorbryder ac iselder cymedrol drwy fodel rhagnodi cymdeithasol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cafodd 24 o ddysgwyr eu cyfeirio drwy eu Meddyg lleol, a buon nhw'n cymryd rhan mewn sawl cwrs gan gynnwys coginio ar gyfer dull byw iachus a rhaglen ymarfer corff a ffitrwydd. Yn ogystal â hyn, cafodd unigolion eu cyfeirio at grŵp cymorth ar gyfer pobl sydd ag Alzheimer a phobl sy'n gofalu am rywun ag Alzheimer. Mae sesiynau dawnsio wythnosol wedi'u datblygu er mwyn targedu unigedd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn.

Daeth 12 person ar gyrsiau bod yn effro i gwympo, gan ganolbwyntio ar atal damweiniau i bobl hŷn neu anabl.

Mae'r Grant Dysgu yn y Gymuned a'r Cytundebau Masnachfraint yn gofyn bod y gwasanaeth yn anelu'i ddarpariaeth at grwpiau penodol sydd dan anfantais. Yn aml, bydd y rhwystrau y mae'r dysgwyr yma'n eu hwynebu yn gymhleth, ac mae dulliau traddodiadol o addysgu wedi methu ag ymgysylltu â nhw, neu'u cadw nhw mewn addysg. O ganlyniad i hyn, mae'r gwasanaeth wedi datblygu dulliau newydd o weithio er mwyn hwyluso datblygiad y dysgwyr, a'u cynorthwyo i gyflawni canlyniadau llwyddianus.

Mae darpariaeth yn parhau i gael ei chyflwyno i ddysgwyr sydd ag anableddau dysgu difrifol a chymhedrol. Yn 2017/18, cafodd 12 cwrs Sgiliau i Fyw'n Annibynnol eu darparu, gyda chyfanswm o 124 o ddysgwyr yn ymgymryd â nhw. Caiff y ddarpariaeth yma ei chyflwyno gan diwtor penodol sydd â phrofiad penodol o ddysgu dysgwyr a sawl math o anabledd. Mae'r ddarpariaeth yn un eang iawn, sy'n cynnwys modiwlau ar Hanes Cymru, sgiliau hanfodol a byw'n iach. Caiff y cyflawniadau eu cydnabod gyda seremoni wobrwyo flynyddol.

Mae'r **Gwasanaeth Rheoli Cerbydau'r Cyngor** yn gweithio mewn modd teg a chyfartal, gan ymdrechu i ddiwallu anghenion unigolion lle bod modd gwneud hynny. Caiff cerbydau eu prynu dim ond ar ôl ystyriaeth fanwl o'u haddasrwydd ar gyfer yr angen. Rydyn n'n cwrdd â defnyddwyr pan fyddwn ni'n ystyried cerbydau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n diwallu eu hanghenion, er enghraifft hygyrchedd i gadeiriau olwyn ar gerbydau'r Llyfrgelloedd, ynghyd â silffoedd is a chysylltiadau ar gyfer iPads. Yn ogystal â hyn, mae gan y cerbydau hongiad y mae modd ei godi neu'i ostwng er mwyn galluogi mynediad i ragor o ardaloedd nag oedden nhw'n flaenorol.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn nodi **Diwrnod Coffáu'r Holocost**. Ym mis Ionawr 2018, roedd achlysur cyhoeddus yn Llyfrgell Rhydfelen. Roedd hwn yn achlysur cyfoes a oedd yn gysylltiedig â throseddau casineb rydyn ni'n eu gweld heddiw. Yma, codwyd ymwybyddiaeth am sut i adrodd am Droseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf. Daeth disgyblion o nifer o'n hysgolion er mwyn cyfrannu at yr achlysur. Cymerodd disgyblion o Ysgol Gynradd Heol y Celyn ran mewn gweithdy a oedd yn

archwilio ystrydebau. Cefnogodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Ddiwrnod Coffáu'r Holocost drwy drefnu arddangosfeydd llyfrau yn ymwneud â'r Holocost.

Mae Strategaeth Ddigidol yr **Adran TGCh** yn helpu'r agenda hollgynhwysol, ac mae'r adran yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi a chynnal mentrau 'Dydd Gwener Digidol' ym mhob un o'n llyfrgelloedd, a'r gwasanaeth prawf newydd ar gyfer cwsmeriaid sydd ddim yn gallu gadael eu cartrefi. Y nod yw rhoi cymorth ac arweiniad i unigolion er mwyn gwella eu sgiliau Technoleg Gwybodaeth, eu hyder a'u galluoedd. Drwy ddarparu mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, rydyn ni wedi galluogi mynediad at wasanaethau. Drwy gynnig cysylltiad di-wifr am ddim i'r cyhoedd yn ein llyfrgelloedd, canofannau hamdden, safleoedd CaW+ a'n theatrau, mae modd i drigolion gysylltu â'r rhyngrwyd drwy ddefnyddio dyfeisiau eu hunain.

Drwy drafodaethau contractau ffônau symudol, rydyn ni wedi helpu i wella mynediad at ddata 4G, a hyrwyddo Microsoft Office 365 am ddim ar gyfer pob disgybl yn ein hysgolion.

Mae ein **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol** yn cynnig gwybodaeth a chyhoeddiadau hygyrch. Mae'n gweithio'n agos â'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb er mwyn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi'u hadlewyrchu yn ei brosesau a'n fframweithiau, er enghraifft Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r Gwasanaeth Crwner canolog newydd ym Mhontypridd wedi gosod sawl dews er mwyn gwella hygyrchedd i bob cwsmer.

**Mae gwaith datblygu cyfleusterau'r Gwasanaethau Hamdden** wedi cynnwys gosod ardaloedd toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd, yn ogystal â gosod cyfarpar ffitrwydd hygyrch.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi datblygu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cysylltu ag 'Employability Plus', gan roi cyfleoedd profiad gwaith, gyda'r potensial i fudiadau gwirfoddol gyfrannu fel partner cyflenwi.

Mae ein hadran Datblygu Chwaraeon yn parhau i ddarparu'r Cynllun 'Get Out and Get Active' mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru, ac wedi trefnu 2 gwrs hyfforddiant ar gyfer staff a darparwyr gweithgareddau allanol ar y pwnc 'Cynhwysiant o ran Anabledd'. Mae hyn yn parhau i fod ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni'r safon Arian ar gyfer 'Insport' erbyn mis Mawrth 2019.
Mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi er mwyn datblygu ac adnewyddu ardaloedd chwarae awyr agored sy'n cynnwys darparu offer chwarae cynhwysol.
Mae cyfres o weithgareddau sy'n addas ar gyfer pobl â dementia wedi cael eu datblygu a'u darparu.

Mae gan bob llyfrgell yn y **Gwasanaeth i Lyfrgelloedd** gyflenwad o lyfrau sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Cafodd yr arwyddion yn y llyfrgelloedd eu gwella er mwyn helpu defnyddwyr i ganfod stoc yn haws. Anogir staff i greu arddangosiadau iechyd a lles, a cymerodd y gwasanaeth ran mewn achlysur iechyd a lles 'Blue Monday'. Roedd yr achlysur wedi gweld llyfrgelloedd ledled de-ddwyrain Cymru yn hyrwyddo iechyd a lles ar ddiwrnod mwyaf trist y flwyddyn.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gadw eitemau sy'n ymwneud â chynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru a'r cynllun Llyfrau Llesol, a chaiff staff eu hannog i hyrwyddo'r stoc yma. Mae nifer o sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo dull byw iach a lles yn manteisio ar gyfleusterau'r llyfrgelloedd, ac mae staff yn hysbysebu'r gwasanaethau yma a chyfeirio defnyddwyr at y sefydliad priodol os oes angen.

Mae'r gwasanaeth yn awyddus iawn i helpu pobl leol i gael swyddi a phrofiad gwaith er mwyn gwella eu sgiliau, ni waeth beth fo lefel eu gallu. Ar ben penodi Prentis a Swyddog Graddedig, mae'r gwasanaeth hefyd yn manteisio ar wirfoddolwyr er mwyn cefnogi'i staff. Eleni, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oriau gwirfoddoli a gafodd ei gyflawni; o 1,333 y llynedd i 2,442 eleni. Rydyn ni'n annog pobl o bob cenfdir i wirfoddoli.

***Hyfforddi staff***
Derbyniodd staff hyfforddiant yn ymwyneud â'r Gymraeg, sydd wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o sawl mater cydraddoldeb. Ar ben hynny, mae staff yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd er mwyn bod yn Hyrwyddwyr Dementia. Byddan nhw hefyd yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cyflwyniad i Gredyd Cynhwysol, a'u swyddogaeth o ran cynnig cymorth i unigolion a'u cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol.

***Adeiladau***
Mae hygyrchedd y llyfrgelloedd yn dda, fodd bynnag, oherwydd oedran a lleoliad ambell adeilad mae yna rhai meysydd sy'n achosi problemau. Cafodd cwynion eu derbyn yn ymwneud â Llyfrgell Tonypandy yn benodol. O ganlyniad, cafodd newidiadau i'r mynediad i bobl anabl eu hychwanegu i'r cynllun ailgynllunio'r adeilad er mwyn ei wneud yn fwy addas ar gyfer y defnyddwyr. Mae'r cynllun wedi bod yn destun cais llwyddiannus am gyllid oddi wrth Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Yn gynharach eleni, gwelodd Llyfrgell Pont-y-clun waith gwella yn mynd rhagddo er mwyn mynd i'r afael â phroblem a gafodd ei nodi gan berson ag anabledd.

***Y Gwasanaeth Llyfrgell Gartref***

Mae'r Gwasanaeth Caeth i'r Tŷ bellach wedi'i newid a'i ailenwi i fod yn y Gwasanaeth Llyfrgell Gartref. Drwy ehangu meini prawf cymhwysedd y Gwasanaeth, mae'n sicrhau bod gan bobl sydd â salwch hir dymor, problemau symudedd, neu sy'n gynhalwyr amser llawn fodd i ddefnyddio'r gwasanaeth. Yn flaenorol, dim ond y sawl a oedd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd salwch oedd yn cael manteisio ar y gwasanaeth. Nod ailfrandio'r gwasanaeth yw lleihau'r stigma sy'n cyd-fynd â'r gwasanaeth, ac felly'n rhoi modd i ddiwallu anghenion rhagor o bobl sy'n agored i niwed. Cafodd Cynllun Gweithredu ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod anghenion y bobl sy'n agored i niwed yn cael eu monitro yn ystod y cyfnod y bydd y gwasanaeth presenol yn newid i'r gwasanaeth Symudol a'r Gwasanaeth Llyfrgell Gartref newydd.

Caiff data yn ymwneud â phobl eraill sydd â nodweddion gwarchodedig ei gasglu yn rhan o'r adran monitro cydraddoldeb mewn arolygon boddhad cwsmeriaid ac arolygon ymgynghori.

Mae llyfrgelloedd yn cynnal dosbarthiadau Saesneg ar gyfer y sawl sy'n siarad ieithoedd eraill, ac mae yna enghraifft o grŵp LHDT+ yn cwrdd mewn llyfrgell.

Mae'r Gwasanaeth **Diogelu'r Cyhoedd** yn gweinyddu'r Grant Pobl Hŷn. Caiff y ffurflenni cais a'r canllawiau eu hanfon at grwpiau a sefydliadau i bobl hŷn yn y fwrdeistref er mwyn eu gwahodd i wneud cais am gyllid i'w helpu nhw i roi themâu Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar waith. Wrth weinyddu'r grant, daethon ni'n effro i'r grwpiau eraill yn y gymuned ddim wedi'u cynnwys yn ein cronfa ddata. O ganlyniad i hyn, cafodd y gronfa ddata ei diweddaru a bydd pob grŵp rydyn ni'n effro iddyn nhw yn yr ardal yn cael eu gwahodd i wneud cais mewn unrhyw rowndiau pennu cyllid. Nod hyn yw sicrhau bod y broses yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn cynnig cyfle teg i gyflwyno cais ar gyfer pob unigolyn hŷn.

Aeth Swyddogion Trwyddedu Tacsis i Gynhadledd Pobl ag Anableddau a'u Cynhalwyr yn 2017, a darparon nhw gyflwyniad yn trafod y rhwymedigaethau sydd gan yrrwyr tacsis o ran defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'r Adran Drwyddedu wedi cynnal ymarferion prynu ar brawf er mwyn sicrhau bod gyrrwyr tacsis yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran cludo defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Llwyddodd y Garfan Iechyd a Diogelwch Bwyd mewn cais am arian cronfa oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn galluogi swyddogion i ddarparu hyfforddiant un i un i fusnesau yn RhCT sydd â sgôr hylendid bwyd o 2 neu'n is er mwyn eu helpu nhw i wella'r meysydd a gafodd eu nodi'n 'wael' yn ystod yr archwiliad. Y gobaith yw y bydd hyn yn fanteisiol i'r busnesau erbyn yr archwiliad nesaf.

Caiff dyraniadau tai drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin eu monitro er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli'r aelwydydd hynny sy'n aros am dai ar y gofrestr yn ogystal â phoblogaeth y fwrdeistref. Hyd yma, mae'r dyraniadau wedi cynrychioli'r ddau beth yma. Pan fydd pobl yn cyflwyno cais am dai, rydyn ni'n gofyn cwestiynau am eu

nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn 2017, cysylltodd y Gwasanaethau Tai â Chymunedau yn Gyntaf er mwyn galluogi'r sawl sydd angen cymorth i ddefnyddio 'Homefinder' drwy'r wefan (www.homefinderrct.org.uk) i wneud hynny yn rhan o'r cynllun Dydd Gwener Digidol; mae'r fenter yma'n gweithio'n dda.

Rydyn ni'n gweithio â 'Tai Pawb' a Charfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb y Cyngor er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau tai yn ymateb i anghenion pob grŵp, a bod ein Cynllun digartrefedd yn holl gynhwysol.

Mae gwerthusiad effaith y cynelau newydd yn Hope Rescue, Llanharan yn dangos tystiolaeth o wasanaeth tu allan i oriau arferol sy'n well drwy dderbyn cŵn crwydr mewn sefyllfaoedd argyfwng. Yn ogystal â hyn, mae modd trefnu bod perchnogion y cŵn yn gallu'u casglu y tu allan i oriau gwaith arferol os oes angen, os nad oes modd iddyn nhw gyrraedd y cynelau; mae hyn yn gwella hygyrchedd yn ogystal â lles y cŵn.

Caiff Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru ei ddefnyddio'n helaeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth er mwyn helpu i drin tystion a phobl dan amheuaeth yn deg wrth ymchwilio i droseddau.

Mae'r rhaglen **Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** yn fforwm arferion da i gyflogwyr ynghylch tueddiad rhywiol. Daeth y Cyngor yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn 2013. Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn parhau i weithio'n agos gyda charfan gweithle Stonewall er mwyn datblygu arferion sy'n cefnogi gweithwyr LHDT, yn ogystal â chael effaith ar y gymuned. Roedd y Cyngor wedi'i nodi ymhlith y 100 Cyflogwr Uchaf ar Restr Stonewall o Gydraddoldeb yn y Gweithle 2018.

Mae'r Gwasanaeth **Gofal y Strydoedd** yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i bob trigolyn a phob rhan o'r gymuned. Mae staff y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg a chyfartal, yn ogystal â mynd gam ymhellach i ddiwallu anghenion pobl lle y bo hynny'n briodol. Dechreuodd hyfforddiant diogelu eisoes ymhlith rhannau o'r staff rheng flaen, ac mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a llythyron ar gael.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth ychwanegol i drigolion sydd angen addasiadau rhesymol, megis casgliadau sbwriel â chymorth i drigolion sydd ag anawsterau symudedd, a chaniatáu rhagor o fagiau duon i drigolion sydd methu â didoli eu gwastraff oherwydd anhawsterau fel nam ar eu golwg. Mae'r gwasanaeth wedi gwella'r modd y mae trigolion yn cael gafael ar fagiau ailgylchu. Caiff bagiau ailgylchu eu dosbarthu i gartrefi unigol y trigolion sydd ag anawsterau symudedd er mwyn annog pawb i gymryd rhan yn yr ymgyrch ailgylchu.

**Mae gan y gwasanaeth Cludiant** effaith uchel ar nifer y grwpiau sydd wedi'u gwarchod, ac mae'r effaith yn un gadarnhaol iawn. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau

bod ei bolisïau'n deg, yn rhesymol, ac yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a gafodd ei chyflwyno gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae'r Adnodd Asesu Effaith y Gwasanaeth Bysiau bellach yn rhan o'r drefn flynyddol, ac mae'n cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a llywio amcanion y gwasanaeth. Mae'r adnodd yn archwilio nifer y defnyddwyr ar bob taith, cost ar gyfer pob teithiwr, argaeledd y gwasanaethau amgen, yr effaith ar y rhwydwaith, gweithwyr sifft, gofal iechyd, ymweld ag ysbytai, addysg a hyfforddiant. Mae wedi'i brofi'i hun i fod yn gwasanaeth tryloyw, a thrwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cyd wedi llwyddo nodi problemau posibl, a lliniaru'u heffaith.

Yr hyn sy'n helpu gyda diwygiadau cost isel i amserlenni yw siarad â Chynghorwyr, defnyddwyr a fforymau, er enghraifft 'Bus User Surgeries', yn ogystal â gwasanaethau ffonio ar gyfer cludiant mewn ardaloedd sydd heb gludiant cyhoeddus fel Bryntirion, Glancynon, Carnetown ac ardal Moel yn y Pentre. Caiff rhain eu hariannu gan Gronfa Cludiant yn y Gymuned y Cyngor o fis Tachwedd 2018.

Y tro diwethaf i'r Cyngor gyhoeddi canlyniadau ei Arolwg Ymgysylltu â Thrigolion oedd ym mis Chwefror 2017. Roedd yr ymatebion i'r adran am drafnidiaeth gyhoeddus yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, yn enwedig yr ymatebion gan y rheiny sy'n gymwys i ddefnyddio trafnidiaeth am ddim. Caiff mwy na 90% o'r rhwydwaith ei ddarparu'n fasnachol, a chafodd ei ddisgrifio fel rhwydwaith "rhagorol", "a gaiff ei ddefnyddio'n gyson", "yn dda iawn i bobl hŷn" a dywedodd rhywun eu bod nhw'n "dwlu ar yr agwedd gymdeithasol o deithio ar y bws". Er i'r ffigur o ran pobl sy'n fodlon â'r rhwydwaith cyffredinol gynyddu i 81% (o 80%), cynyddodd y ffigur o ran y rheiny oedd yn fodlon ar ddibynadwyedd y bysiau i 87% (o 72%). Bydd y cwestiynau'n cael eu hailadrodd yn 2019.

Mae modd i bob trigolyn sy'n hŷn na 60 oed hawlio tocyn bysiau gostyngol ac mae 54,893 o bobl wedi manteisio ar y cynnig yma. Caiff 5,081 o docynnau ychwanegol eu cyflwyno i bobl sydd o dan 60 oed ond sy'n anabl.

Yn dilyn ymgynghoriad â Grŵp Mynediad Lleol, mae'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid gan sawl ffynhonnell er mwyn ymgymryd â gwaith gwella arosfannau bysiau sydd ar hyd llwybr bysiau. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod cysgodfannau newydd (os bydd digon o le ar y llwybr), polion a baneri newydd mewn safleoedd bysiau, cerbiau newydd sydd wedi'u codi, gydag ymylon graddedig, fel bod modd camu ar y bysiau heb ddefnyddio gris (does dim gris ar y bysiau), yn ogystal â gosod wyneb newydd ar y man sefyll i gwsmeriaid ac adnewyddu'r marciau ar y safleoedd bysiau. Mae'r buddsoddiad mewn seilwaith gorsafoedd bysiau wedi bod yn sylweddol, ac erbyn diwedd 2017/18 llwyddodd y gwasanaeth i osod cerbiau hygyrch wedi'u codi yn 49.2% o'i 1,192 safle bws. Mae'r awdurdod bellach yn y 2il safle yng Nghymru o ran hyn.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon y trigolion am barcio anwahaniaethol yn ei wneud yn anodd i fysiau stopio yn agos at y cwrbyn, ac yn effeithio ar lif y traffig, mae'r adran gorfodi â chamerâu symudol wedi llwyddo i gadw manau croesi i gerddwyr, mynedfeydd ysgolion ac arosfannau bysiau yn glir rhag cerbydau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon.

Mae rhwydwaith y priffyrdd, a'r llwybrau cerdded diogel, yn datblygu drwy'r amser o ganlyniad i waith gwella fel mannau croesi newydd, datblygiadau a nodweddion diogelwch ar y ffyrdd. Mae modd i'r newidiadau yma effeithio ar gymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol, ac felly mae'n ddoeth adolygu effaith y newidiadau yma o bryd i'w gilydd, a diweddaru cymhwysedd unigol, gan sicrhau bod meini prawf cymhwysedd y Cyngor yn cael ei weinyddu mewn modd teg. Mae meini prawf y Cyngor ymhlith y rhai mwyaf hael yng Nghymru. Yr adolygiad diweddaraf o ran darpariaeth cludiant ysgol oedd ym mis Mehefin 2017. Derbyniodd gadarnhad y Cabinet ar 28 Medi 2017.

Caiff y ddarpariaeth o ran cludiant i bobl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ei theilwra i anghenion unigol y dysgwr gan garfan arbenigol yn y gwasanaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran galluedd corfforol yn y gymuned, ac mae gan 914 o'r 12,186 o ddysgwyr a gaiff eu cludo anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal â hynny, trefnodd y gwasanaeth hyfforddiant arbennig ar gyfer gyrwyr a chynorthwywyr teithio ym maes ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac epilepsi, cymorth cyntaf, yn ogystal â deall ymddygiad heriol a'i reoli.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid a'r Garfan Bontio o fewn y Gwasanaethau Gofal yn y Gymuned a'r Gwasanaethau i Blant er mwyn helpu pawb o bob oed, gallu ac â phob angen sydd â diffyg ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd, ac sy chwaith ddim yn gwybod sut i deithio ar gludiant cyhoeddus. Mae hyfforddiant ar sut i deithio'n cael ei ystyried yn fanteisiol o ran helpu pobl ag anghenion ychwanegol i gael mynediad teg ac annibyniaeth. Mae'n helpu o ran goresgyn heriau, yn cael gwared ar rwystrau i deithio'n annibynnol ac yn rhoi mynediad well at swyddi, gwasanaethau a rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'n eu hysgogi nhw o ganlyniad i'r sgiliau newydd ac i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yn eu cymunedau.

Mae'r Cyngor yn bartner yng **Ngwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)** ac mae gydag e Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Gyngor Caerdydd. Yn ystod 2017/18, cafodd 345 trefniant eu gwneud drwy'r gwasanaeth. Cafodd 19 o ieithoedd eu defnyddio, yn ogystal â dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Y pum iaith a gafodd eu ceisio fwyaf yn ystod 2017/18 oedd Lithwaneg, Mandarin, Cwrdeg / Sorani, Portiwgaleg ac Arabeg.

Trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, mae'r **Uned Gwasanaethau Cymraeg** wedi galluogi trigolion i fanteisio ar achlysuron a fyddai wedi bod yn amhosib iddyn nhw fod yn bresennol ynddyn nhw o ganlyniad i rwystr iaith. Dylai pwysigrwydd hyn ddim cael ei danbrisio, yn enwedig o ran creu cymunedau cydlynol.

Mae dau aelod o'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn rhan o Rwydwaith Cynghreiriaid y staff ac roedden nhw'n bresennol yng Ngorymdaith 'Pride Cymru', gyda'u pennaeth gwasanaeth, yng Nghaerdydd eleni. Mae'r rhwydwaith yma yn fodd pwysig o gefnogi unrhyw aelod o staff sydd yn profi anhawsterau yn y gwaith, neu sy'n cael problemau ymgartrefi ar ôl penodi; system cyfaill yw hyn yn y bôn. Mae'r staff sydd yn rhan o'r rhwydwaith yn derbyn cynigion i gyfleoedd hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb fel bod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o faterion LHDT+, a'r rhwystrau y gallai staff â nodweddion gwarchodedig eu hwynebu.

**Cyflawni Strategaethau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, pennu a monitro safonau perfformiad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu dull wyneb yn wyneb er mwyn ymgysylltu â thrigolion yn 2018. Ei nod yw cynnal sgwrs â'n trigolion sy'n ein galluogi ni i edrych ar eu hymatebion gwreiddiol yn fwy manwl. Mae'n helpu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddeall beth yw barn trigolion am y lle maen nhw'n byw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn.

Aeth y Garfan Ymgynghori i achlysuron a fforymau er mwyn ymgymryd ag ymarferion ymgynghori wyneb yn wyneb, gan gynnwys y Fforwm i Bobl Anabl, Fforwm i Bobl Hŷn, a Fforwm Ieuenctid RhCT gyfan. Roedden ni hefyd wedi ymgymryd ag ymchwil ymgysylltu â thrigolion a oedd yn cynnwys sawl achlysur mewn llyfrgelloedd, parciau a chanolfannau hamdden. Yn ogystal â hynny, gofynnon ni i bobl wneud sylwadau ar amrywiaeth o Wasanaethau'r Cyngor a disgrifio'u profiadau o ran defnyddio'r gwasanaethau yn ystod ein hymarfer ymgysylltu blynyddol mewn perthynas â'r gyllideb. Yn rhan o hyn, parhaon ni i sgwrsio â thrigolion mewn sioeau teithio canol tref, canolfanau hamdden a llyfrgelloedd. Defnyddion ni system efelychu cyllideb ar-lein er mwyn galluogi trigolion i roi cynnig ar osod cyllideb y Cyngor eu hunain, ynghyd ag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio cwestiynau a systemau pleidleisio er mwyn casglu ymatebion. Cynhalion ni sesiwn ymgynghori brawf gyda disgyblion ysgolion cynradd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn ystod y broses. Roedd y gwasanaethau

yma yn seiliedig ar flaenoriaethau/buddsoddiadau presennol y Cyngor neu feysydd lle roedd angen i ni gael barn ein trigolion.

Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu barn trigolion a hyrwyddo ymgynghoriadau. Rydyn ni wedi defnyddio system bleidleisio Twitter er mwyn gofyn cwestiynau yn ystod yr ymgynghoriad ar gyllideb.

Rydyn ni wedi parhau i feithrin cydberthnasau â thrigolion sy'n 50 oed neu'n hŷn drwy ymgysylltu â'r Cylchoedd Trafod i Bobl Hŷn, a bellach rydyn ni'n eitem reolaidd ar agenda'r Cylch Trafod Materion Anabledd.

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu Fforwm Ieuenctid ledled Rhondda Cynon Taf sy'n gysylltiedig â Fforymau Ieuenctid Rhanbarthol y Cyngor yn ogystal â chynrychiolwyr o gynghorau ysgolion.

Mae'r Garfan Ymgynghori hefyd wedi cefnogi sawl ymgynghoriad gan feysydd gwasanaeth eraill yn 2017/2018, gan gynnwys; achlysuron, hamdden, cynllunio, addysg, adnewyddu canol trefi, gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus, twristiaeth, llyfrgelloedd a chludiant.  Mae'r ymgynghoriadau yma'n helpu'r gwasanaeth i wella a newid ar sail anghenion y gymuned.

Rydyn ni wedi datblygu ein dull o gasglu data monitro cydraddoldeb drwy ymgynghoriadau, ac rydyn ni'n cynnwys cwestiynau perthnasol yn yr holl arolygon rydyn ni'n eu cyflawni. Yn ystod ymgynghoriadau newid gwasanaethau, rydyn ni'n gofyn cwestiwn am nodweddion gwarchodedig, sy'n gofyn i'r ymatebwyr p'un a oes modd iddyn nhw gael eu heffeithio gan gynnig neu newid o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig.

Er mwyn rhoi adroddiadau a gwybodaeth gyson i'n Carfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydyn ni wedi gwella ein harolwg 'Cynllunio Ymgynghoriadau' a'n taenlen, fel bod modd nodi'r hyn sydd wedi'u gynllunio, beth oedd canlyniadau' ymgynghoriad a'r data monitro cydraddoldeb a gafodd ei nodi.

Caiff dulliau ar y cyd tuag at  ymgynghori ac ymgysylltu eu cydlynu drwy Grŵp Cynhwysiant, Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar y cyd sy'n atebol i Fwrdd Cydweithio Cwm Taf. Nod y grŵp yw darparu dull effeithiol ac effeithlon o ymgynghori ac ymgysylltu ar draws partneriaid Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yr hyn sy'n ganolog i ddarpariaeth y cynllun yma yw bod pob partner yn dilyn Egwyddorion Cenedlaethol 'Participation Cymru' o ran Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifainc Cymru. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau.

**Cyflawniad y Cyngor**

Prif gynllun strategol y Cyngor yw ei Gynllun Corfforaethol - *Y Ffordd Ymlaen*. Mae'r cynllun yma'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2016 a 2020. Caiff y camau gweithredu manwl er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yma eu hamlinellu mewn cynlluniau sy'n destun monitro a chraffu gan y Cynghorwyr bob chwarter. Mae hyn yn rhan o Adroddiadau Cyflawniad y Cyngor i'r Cabinet. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y cynlluniau eu herio, eu hadolygu a'u gwerthuso yn fwy manwl. Wedyn, caiff y canlyniadau eu cynnwys yn Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor.

**Diffyg Gwybodaeth ac Effeithiolrwydd**

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn, rydyn ni’n cydnabod ei bod hi’n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf.  Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabledd, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a’u rhannu. Ond, rydyn ni’n cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

Mae nifer o enghreifftiau o arfer da lle mae gan feysydd gwasanaeth ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Serch hynny, mae angen gwella'r sefyllfa gyffredinol o ran cysondeb yr wybodaeth a gaiff ei chasglu. I weld sut rydyn ni’n mynd i’r afael â hyn, ewch i adran ‘camau pellach’ yr adroddiad hwn.

## 6. Amcanion Cydraddoldeb

Cafodd amcanion cydraddoldeb eu cynllunio i'n helpu i arwain a chyflawni'n well mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb fel a ganlyn:

- Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'
- Datblygu Trefniadau Monitro Mwy Cadarn
- Cyflog y Rhywiau

**Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'**

**Beth rydyn ni wedi'i gyflawni**

***Trosedd Casineb***

Rydyn ni eisoes wedi nodi ein bod ni wedi datblygu Strategaeth Troseddau Casineb ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Yn rhan o'r strategaeth, cafodd Grŵp Adolygu Troseddau Casineb ei sefydlu yn ardal Cwm Taf. Mae'r grŵp yn cynnwys carfanau heddlu lleol, y Cydlynydd Cydlyniant yn y Gymuned, Swyddogion Cymorth i Ddioddefwyr a'r Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru. Mae'r grŵp yn cwrdd bob mis ac yn trafod tensiynau a thueddiadau yn y gymuned. Caiff adolygiad o holl achosion trosedd casineb yn yr ardal o'r mis BLaenorol ei dadansoddi, a chaiff diweddariad ei ddarparu ar yr holl gynlluniau gweithredu ar droseddau casineb sy'n weithredol yn y rhanbarth.

Mae gwaith wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb drwy weithio mewn partneriaeth agos ag aelodau o'r gymuned sydd fwyaf agored i niwed, ac ymgysylltu â nhw. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cafodd sawl gweithgaredd codi ymwybyddiaeth eu trefnu ledled y fwrdeistref, gydag asiantaethau partner fel Heddlu De Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr. Cafodd stondinau ymgysylltu eu harddangos yn y colegau, yr ysbytai, y llyfrgelloedd ac yn yr archfarchnadoedd mawr. Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, roedd modd i ni ddangos i'r gymuned beth oedd Trosedd Casineb, sut i roi gwybod amdano, ac amlygu'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.

Mae gweithgareddau ymgysylltu hefyd wedi canolbwyntio ar fusnesau lleol, o ran rhoi gwybod am droseddau casineb a monitro tensiynau.

Cafodd cyfarfodydd eu cynnal gyda phob cymdeithas tai yn Rhondda Cynon Taf er mwyn eu cynghori ar eu gweithdrefnau a'u polisïau yn ymwneud â throseddau casineb, ac i gefnogi'r sefydliadau o ran rhoi gwybod am droseddau casineb a thensiynau.

**Mynd i'r afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol**

***Herio Ymddygiad***

Rydyn ni'n cynnig ystod o gyrsiau hyfforddiant, gan gynwys Urddas a Pharch, Agweddau Negyddol ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb. Mae pob un yn cynnwys pynciau fel cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, herio ystrydebau, iaith ac ymddygiad anaddas, bwlio ac aflonyddu. Mae'r mwyafrif o'n sesiynau hyfforddi yn rhyngweithiol ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i gyfranogwyr herio'u rhagdybiaethau. Mynychodd dros 400 o weithwyr, aelodau etholedig a disgyblion sesiynau hyfforddiant yn ystod 2017/2018. Mae adborth o'r hyfforddiant yn dal i fod yn bositif. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y byddan nhw'n myfyrio ar y sesiwn ac yn newid eu hymddygiad yn y gweithle. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n annog pobl i lofnodi Ymgyrch #DimAnwybyddu Stonewall, sy'n annog cydweithwyr i herio iaith ac ymddygiad anaddas.

Rydyn ni wedi parhau i gynnal nifer o foreau coffi ar brif safleoedd y Cyngor, ac mae ein rhwydwaith Cynghreiriaid wedi'u cefnogi er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwahanol grwpiau o bobl.

Rydyn ni wedi sefydlu Rhwydwaith i Weithwyr sydd ag Anableddau neu sy'n Gynhalwyr.  Mae yna aelodaeth fach ar hyn o bryd sy'n ystyried ei chylch gorchwyl a'i feysydd o ddiddordeb.

Rydyn ni'n bresennol ar safle mewnrwyd y Cyngor (Inform) er mwyn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o wahanol ddyddiau:

- Diwrnod y Lluoedd Arfog a Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Rhyngwladol y Merched
- Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl
- Diwrnod Coffa Pobl Drawsryweddol
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Crefydd y Byd

***Ymrwymiad i Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall***
Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i Raglen Amrywiaeth Stonewall ac yn gwneud rhagor o gynnydd yn y maes yma. Rydyn ni'n cefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys y canlynol:

- 'Perthyn', rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thraws*+ cynaledig.
- Parhau i dyfu Rhwydwaith Cynghreiriaid y staff.
- Uwch eiriolwr Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol amlwg.
- Gwella ffurflenni monitro er mwyn casglu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol.
- Mynd i Pride Cymru ac ymgysylltu â thrigolion, mewn partneriaeth â Chynghorau eraill o Gymru.
- Rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ar Inform ac ar wefan y Cyngor yn rheolaidd, gan gynnwys blogiau gan staff sy'n aelodau o'r rhwydwaith.
- Chwifio Baner yr Enfys ar gyfer Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia ac yn ystod wythnos Pride.
- Cefnogi ein theatrau ar gyfer achlysuron Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.
- Cafodd lluniau 'Eiconau a Chynghreiriaid' Pride Cymru eu harddangos ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda a Llyfrgell Pontypridd.

- Hyrwyddo'r Ymgyrch Lasys Enfys.
- Annog pobl i gefnogi'r ymgyrch #DimAnwybyddu.

Roedd y Cyngor wedi cefnogi sefydliad y grŵp cymunedol LHDT+ Cwm Rhondda 'Cymoedd Balch', ac mae'n parhau i gefnogi'r grŵp ar sawl menter.

***Ymrwymiad i Addewid Amser i Newid Cymru: Addewid Sefydliadol***
Ym mis Rhagfyr 2014, llofnododd y Cyngor Addewid Sefydliadol Amser i Newid Cymru. Drwy lofnodi'r Addewid, rydyn ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu mewn perthynas ag iechyd meddwl yn y gweithle.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn cynnal sesiynau 'Amser i Siarad' rheolaidd ar safleoedd y Cyngor. Cafodd sesiynau eu cynnal mewn sawl lleoliad y Cyngor, yn ogystal â mewn rhai ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn sesiynau galw heibio sy'n annog staff i ddechrau sgwrs ynghylch iechyd meddwl. Ar Ddiwrnod 'Amser i Siarad' ym mis Chwefror, roedd ymgyrch mewnol ac allanol o ran cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ac annog sgyrsiau.

***Datblygu Trefniadau Monitro Mwy Cadarn***
Llwyddodd Carfan Rheoli Cyflawniad y Cyngor i gasglu gwybodaeth berthnasol o bob maes gwasanaeth yn rhan o broses Hunanwerthuso Hunanwasanaeth y Cyngor, er mwyn ei chynnwys yn yr adroddiad yma.

Cafodd sgyrsiau eu cynnal â rhai meysydd gwasanaeth er mwyn casglu data monitro, a chaiff hyn ei ddatblygu ymhellach. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Meysydd Gwasanaeth i adolygu pa wybodaeth a gaiff ei chasglu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'i monitro.

**Cyflogau'r Rhywiau**

***Y Gwahaniaeth yng Nghyflogau'r Rhywiau***
Ystyr y gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad. Mae modd ei gyfrifo drwy rannu cyfradd gyflog gyfartalog menywod gyda chyfradd gyflog gyfartalog dynion.

Mae rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau rhwng gweithwyr sy'n ddynion ac yn fenywod. Yn ogystal â hynny, mae gofyn iddo gyhoeddi'r data yma ar wahân ar gyfer gweithwyr ym maes Addysg (staff dysgu).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu'n gryf y dylai sefydliadau gyhoeddi'r gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau ar gyfer staff llawn amser a staff rhan amser ar wahân. Caiff unrhyw wahaniaeth o 5% neu fwy yng nghyflogau'r rhywiau ei ystyried yn wahaniaeth sylweddol, a bydd hyn yn gofyn am ragor o ddadansoddi.

Nododd Archwiliad Cyflogau Cyfartal 2018 y gwahaniaethau canlynol:

| 2018 | Y Gwahaniaeth ar y Cyd | Y Gwahaniaeth - Llawn Amser | Y Gwahaniaeth - Rhan Amser |
|---|---|---|---|
| Pob un o'r gweithwyr | + 13.17% | - 9.22% | + 7.34% |
| Staff sydd ddim yn Addysgu | + 13.29% | - 7.32% | + 6.82% |
| Addysgu | + 5.32% | + 4.83% | - 1.95% |

Ystyr cymedr y gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ddynion a'r cymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ferched. Mae ffigur positif yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddynion. Mae ffigur negyddol yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddynion.

Yn gyffredinol, mae'r bwlch cyflog rhwng rhyweddau wedi gostwng i 13.17% o 14.06% yn 2017. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol o ran ei ymdrechion i ostwng y bwlch, ond mae angen cynnal dadansoddiad pellach er mwyn pennu pa fentrau sydd wedi cael effaith ar y gostyngiad yma.

***Ymrwymiad i Brosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)***

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o brosiect arloesol WAVE mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd er mwyn cyflawni'r amcanion o ran Cyflogau'r Rhywiau. Rydyn ni wedi dadansoddi'r data ynglŷn â' gweithlu yn drylwyr ac wedi nodi meysydd anghydfod o ran cyflogau'r rhywiau. Mae'r meysydd anghydfod yn cynnwys merched a gaiff eu cyflogi ar raddau 1 i 3.

Mae'r adroddiad cyflawniad yn cael ei ailddylunio, a'i gyflwyno i staff ar bob gradd, gan gydnabod bod angen i fenywod sydd wedi'u cyflogi ar raddau 1 i 3 yn benodol gael cyfle i drafod eu datblygiad yn y gweithle a chyfleoedd dilyniant.

Mae cyfleoedd i weithio'n hyblyg yn parhau i gael eu cyflwyno ar draws adrannau'r Cyngor yn dilyn cynllun prawf llwyddiannus. Yn yr ardaloedd prawf, bu gwelliant amlwg o ran cynhyrchiant gweithwyr, ac mae'r hyblygrwydd a'r cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith wedi gwella. Mae desgiau gwag (hot desks) wedi'u gosod drwy gydol adeiladau'r Cyngor, ac maen nhw'n cael eu defnyddio'n llawn.

Cyflwynon ni 'gynllun i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol', sydd eto'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i weithwyr.

Mae adolygiad o brosesau ac arferion penodi'r Cyngor wedi'i gynnwys yn Cynllun Darparu AD, oherwydd yn ystod sesiwn hyfforddiant rhagfarn anymwybodol cafodd ei nodi bod modd gwella hysbysebion swyddi a swydd ddisgrifiadau er mwyn annog rhagor o amrywioldeb mewn ymgeiswyr, yn enwedig mewn swyddi sydd ag ystrydebau o ran rhywedd.

**Cynnydd Cyffredinol**
Fel y gwelir uchod, mae'r camau'n datblygu'n dda a chân nhw eu monitro drwy ddulliau amrywiol a gan Garfan Rheoli Cyflawniad y Cyngor.

## 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi cynnal proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ers sawl blynedd. Mae'r broses yn cael ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- wrth ddatblygu polisïau neu arferion newydd (gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol)
- wrth gynnig gwneud newidiadau i bolisïau neu arferion cyfredol, ac wrth gynnal adolygiadau o wariant a gwerthuso rhaglenni
- os oes cynigion i atal neu roi'r gorau i bolisi neu arfer cyfredol
- os yw'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau i gydraddoldeb

Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd ac mae eisoes yn ystyried y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Dechreuodd y Cyngor broses sgrinio ym mis Ionawr 2012. Ei fwriad yw sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosib a bod yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam sgrinio yn gallu cael ei defnyddio os oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Er hynny, mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awtomatig.

Mae'r tabl isod yn cynnig cip olwg o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gafodd eu cynnal yn 2017/2018.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| Polisi/Gweithdrefn | Dyddiad |
|---|---|
